# Eich Gwasanaethau Casglu Ailgylchu a Gwastraff Na Ellir Ei Ailgylchu



Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Blaenau Gwent yn ailgylchu**
**Blaenau Gwent recycles**

At ddefnydd swyddfa'n unig: 04/2023

I'w gwneud mor hawdd â phosibl i chi gael gwared ar eich gwastraff o'ch cartref mewn modd cyfrifol, rydym yn darparu **cynwysyddion ar wahân** ichi gael gwahanu eich ailgylchu oddi wrth eich gwastraff na ellir ei ailgylchu.

- Rydym yn casglu **eich holl ailgylchu** o'ch cartref **bob wythnos**, yn cynnwys gwastraff bwyd.
- Rydym yn casglu'ch **gwastraff na ellir ailgylchu** o'ch cartref **bob tair wythnos**.



I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i'n gwefan.

# Beth yw manteision ailgylchu ein gwastraff?

### Arbed ynni a gwarchod ein planed

Pan fyddwn yn ailgylchu ein gwastraff a hwnnw'n cael ei droi'n eitemau newydd, rydyn ni'n defnyddio llai o ynni o'i gymharu â defnyddio deunyddiau 'newydd' neu 'ddeunyddiau crai', sy'n lleihau ein hallyriadau carbon ac yn helpu i atal newid hinsawdd.



### Gwella ansawdd yr ailgylchu

Trwy gasglu eich ailgylchu mewn cynwysyddion ar wahân, mae'n gwella ansawdd yr ailgylchu a gasglwn gennych. Mae hyn yn golygu bydd mwy ohono'n aros yn y Deyrnas Unedig i gael ei ailgylchu, sy'n well i'r amgylchedd.



### Gwneud arbedion

Pan fo pobl yn rhoi deunyddiau y gellid eu hailgylchu yn eu bin du neu fagiau du, rydym yn talu mwy i gael gwared ar yr eitemau hyn y gellid bod wedi'u hailgylchu. Mae hyn yn golygu bod llai o arian gennym i'w wario ar wasanaethau pwysig arall.



### Cyflawni targedau ailgylchu

Mae'r gwasanaethau rydym yn eu darparu'n cyd-fynd â'r dull a argymhellir ar gyfer yr holl gasgliadau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu ledled Cymru a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn ein helpu i gyrraedd ei darged o ailgylchu 70% o'n holl wastraff erbyn 2025.



## Pa resymau eraill sydd o blaid ailgylchu?

- ✔ **Mae'n hawdd**. Mewn gwirionedd, mae ar garreg eich drws ac nid yw'n cymryd llawer o amser nac ymdrech.
- ✔ **Mae'n lanach**. Caiff ailgylchu ei gasglu bob wythnos, ond nid felly eich gwastraff gweddilliol na ellir ei ailgylchu, felly bydd yn cael ei gasglu gennych yn gynt.
- ✔ **Mae'n fwy dymunol** i'ch amgylchedd lleol, eich cymuned, a'n planed.
- ✔ **Dyna'r peth iawn i'w wneud**.

## Sut ddylwn i gyflwyno fy ailgylchu a fy ngwastraff na ellir ei ailgylchu i gael ei gasglu?

1. Rhowch yr eitemau cywir yn y cynwysyddion cywir. (Gweler tudalennau 4 hyd 14 ar gyfer 'beth sy'n mynd i ble?')
2. Clymwch eich bagiau leinio a sachau untro'n dynn.
3. Caewch y fflapiau a'r caeadau ar eich bagiau, biniau, bocsys a chadis.
4. Rhowch eich cynwysyddion yn eich man casglu cyn 7yb ar eich diwrnod casglu.
5. Casglwch eich cynwysyddion o'ch man casglu unwaith y byddwn wedi'u gwagio.



## Sut allaf i gael mwy o gymorth?

**Cysylltwch â ni i gael gwybod:**

- sut i archebu'r cynwysyddion ailgylchu y mae eu hangen arnoch am ddim, os nad oes gennych rai'n barod, neu os ydyn nhw wedi mynd ar goll
- pa ddiwrnod o'r wythnos rydyn ni'n casglu eich ailgylchu a'ch gwastraff na ellir ei ailgylchu
- beth arall y gallwch – ac na allwch – ei ailgylchu
- pa gymorth arall neu wasanaethau ychwanegol y gallwn eu rhoi ichi i'ch helpu i ddidoli eich gwastraff ac ailgylchu'n gywir. Rydyn ni yma i helpu os bydd gennych unrhyw gwestiynau

# Beth sy'n mynd i ble?

## Gwastraff bwyd



**Cadi gwyrdd**



### Ie, plîs

- ✔ Hen fagiau te a gwaddodion coffi
- ✔ Plisg wyau
- ✔ Crafion ffrwythau a llysiau
- ✔ Cig a physgod amrwd ac wedi'u coginio, yn cynnwys esgyrn
- ✔ Crafion oddi ar eich plât
- ✔ Bwyd dros ben na ellir ei storio'n ddiogel i'w fwyta'n nes ymlaen
- ✔ Bwyd nad yw'n ddiogel i'w fwyta bellach

**Cofiwch:**

- defnyddiwch eich cadi a bagiau leinio a ddarperir gan y Cyngor. Os nad oes gennych fagiau leinio a ddarparwyd gan y Cyngor, cewch ailddefnyddio unrhyw fagiau plastig untro sydd gennych, yn cynnwys bagiau plastig o'r archfarchnad (ond nid Bagiau am Oes), bagiau bara, bagiau brechdanau, bagiau grawnfwyd, bagiau bwyd o'r rhewgell, bagiau tatws/llysiau neu ffrwythau
- clymwch eich bagiau leinio gwastraff bwyd neu fagiau plastig yn dynn, a chaewch y caead ar eich cadi gwastraff bwyd

### Dim diolch

- ✘ Deunydd pacio o unrhyw fath
- ✘ Hylifau fel llaeth *
- ✘ Olewau neu fraster hylifol **
- ✘ Unrhyw ddeunydd nad yw'n wastraff bwyd

* Cewch arllwys symiau bach o fwyd hylifol neu ddiod i lawr y sinc, yn ddelfrydol ynghyd ag ychydig o ddŵr i sicrhau bod y gwastraff yn llifo i ffwrdd yn hawdd, heb flocio'r draeniau.

** Ewch â'r rhain i'ch Canolfan Ailgylchu leol mewn cynhwysydd addas, os gwelwch yn dda. Os bydd angen ichi gael gwared ar unrhyw fraster sy'n solid neu ddim ond yn rhannol hylifol, rhowch y rhain yn eich bin du neu fagiau du.

# Beth sy’n mynd i ble?

## Papur




**Adran glas**




### ✔ Ie, plîs

- ✔ Llythyrau
- ✔ Amlenni, gyda ffenestri neu heb
- ✔ Cylchgronau
- ✔ Papurau newydd
- ✔ Llyfrynnau a chatalogau
- ✔ Papur argraffydd
- ✔ Symiau bach o bapur wedi’i rwygo’n fân, fel derbynebau a biliau’r cartref (rhowch y papur hwn mewn bag plastig clir a’i glymu’n dynn, cyn ei roi yn eich bocs ar gyfer papur)

**Cofiwch:**

- cadwch bapur yn sych
- defnyddiwch y bocs a ddarparwyd gan y Cyngor yn unig. Peidiwch â defnyddio unrhyw fath arall o gynhwysydd, yn cynnwys unrhyw fagiau plastig untro

### ✘ Dim diolch

- ✘ Papur cegin, tyweli papur, neu hancesi papur *
- ✘ Cardiau crafu *
- ✘ Papurau gludiog fel nodiadau Post-it, labeli gludiog neu dâp papur *
- ✘ Papur wal *
- ✘ Papur lapio *
- ✘ Papur wedi’i halogi â bwyd, olew, saim neu baent *
- ✘ Papur gwlyb o unrhyw fath *
- ✘ Papur brown neu lwyd **

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich bin du neu fagiau du.

** Rhowch yr eitemau hyn yn eich bag gwyn ar gyfer cardbord.

Rydym yn casglu’ch **ailgylchu** o’ch cartref **bob wythnos**.
I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i’n gwefan.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Metelau a phlastigion cymysg




**Adran coch**



- **Caniau, tuniau, erosolau gwag a ffoil metel**
- **Poteli, potiau a thybiau plastig**
- **Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak**

### ✔ Ie, plîs

**Metelau**

- ✔ Caniau diodydd, fel y rhai sy'n dal cwrw a diodydd ysgafn
- ✔ Tuniau bwyd, fel y rhai sy'n dal ffa a chawl
- ✔ Tuniau siocled a bisgedi metel, a'u caeadau
- ✔ Erosolau gwag
- ✔ Haenau a thybiau ffoil glân

**Cartonau**

- ✔ Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak, a ddefnyddir ar gyfer sudd ffrwythau, llaeth a chawl

### ✘ Dim diolch

**Metelau**

- ✘ Pecynnau creision *
- ✘ Deunydd lapio losin ffoil *
- ✘ Pecynnau ffoil wedi'u lamineiddio sy'n dal bwyd a diod fel coffi, sudd, reis, bwyd babanod neu fwyd anifeiliaid *
- ✘ Pinnau e-sigarennau neu 'vapes' **

* Os bydd angen cael gwared ar yr eitemau arnoch, gweler tudalen 15.

** Os bydd angen cael gwared ar yr eitemau arnoch, gweler tudalen 11 ('Eitemau trydanol bach').

**Cofiwch:**

- tynnwch unrhyw bympiau o boteli nwyddau ymolchi a'u rhoi yn eich bin du neu fagiau du
- tynnwch unrhyw ffilm blastig neu badiau amsugnol a'u rhoi yn eich bin du neu fagiau du
- gwagiwch a rinsiwch eitemau metel a phlastig
- gwasgwch eitemau metel a phlastig yn ddiogel i'w gwneud yn llai, os yw'n bosibl
- sicrhewch fod erosolau'n wag
- sicrhewch fod ffoil yn lân

## Metelau a phlastigion cymysg – parhad...



### ✔ Ie, plîs

**Plastigion**

- ✔ Poteli gofal croen a nwyddau ymolchi plastig, fel y rhai sy’n dal sebon dwylo, sebon corff, gel cawod, siampŵ, cyflyrydd gwallt a swigod bath
- ✔ Poteli nwyddau glanhau plastig, fel y rhai sy’n dal cannydd, hylif golchi llestri, hylif golchi dillad, a chyflyrydd ffabrig, a thybiau sy’n dal capsiwlau a thabledi golchi dillad
- ✔ Poteli diodydd plastig, fel y rhai sy’n dal diodydd ysgafn, llaeth a dŵr
- ✔ Potiau plastig, fel potiau hufen ac iogwrt
- ✔ Tybiau plastig, fel potiau menyn, marjarîn, siocled, losin a hufen iâ
- ✔ Tybiau plastig fel y rhai sy’n dal teisenni, myffins a chig
- ✔ Potiau plastig, fel y rhai sy’n dal ffrwythau a llysiau
- ✔ Tybiau a chaeadau plastig o’r tecawê
- ✔ Poteli plastig o’ch garej, tŷ gwydr neu sied, fel poteli bwyd planhigion nad ydynt yn wenwynig

### ✘ Dim diolch

**Plastigion**

- ✘ Bagiau a deunydd lapio plastig (gweler tudalen 15)
- ✘ Eitemau plastig du neu frown ***
- ✘ Rhwydi a ddefnyddir fel pecynnau ffrwythau a llysiau ***
- ✘ Bagiau bwyd sych cathod a chŵn ***
- ✘ Bagiau compost a phridd i’r ardd ***
- ✘ Pecynnau swigod, hynny yw, y pecynnau plastig a ddefnyddir i ddal tabledi a chapsiwlau ***
- ✘ Brwshys dannedd a thiwbiau past dannedd ***
- ✘ Raseli plastig ***
- ✘ Plastigion caled, fel cadeiriau o’r ardd, teganau plant, biniau o’r gegin, powlenni golchi llestri, potiau blodau neu gynwysyddion Tupperware ****
- ✘ Tanwyr ***
- ✘ Poteli nwy ****

*** Rhowch yr eitemau hyn yn eich bin du neu fagiau du.

**** Ewch â’r eitemau hyn i’ch Canolfan Ailgylchu leol, os gwelwch yn dda.

Rydym yn casglu’ch **ailgylchu** o’ch cartref **bob wythnos**.
I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i’n gwefan.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Poteli a jariau gwydr




**Adran gwyrdd**




### ✔ Ie, plîs

- ✔ Poteli gwydr, fel y rhai a ddefnyddir i ddal cwrw, gwin a diodydd ysgafn
- ✔ Jariau gwydr, fel y rhai sy'n dal bwyd babanod a sawsiau
- ✔ Poteli nad ydynt ar gyfer bwyd a diod, fel poteli persawr, persawr eillio ac eli wyneb

**Cofiwch:**

- wagio a rinsio eitemau gwydr
- tynnwch unrhyw gapiau neu gaeadau metel neu blastig a'u rhoi yn eich bocs ar gyfer metelau a phlastigion cymysg
- defnyddiwch y bocs a ddarparwyd gan y Cyngor yn unig. Peidiwch â defnyddio unrhyw fath arall o gynhwysydd, yn cynnwys unrhyw fagiau plastig untro

### ✘ Dim diolch

- ✘ Eitemau ceramig neu Tsieina *
- ✘ Gwydrau yfed *
- ✘ Gwydr fflat, fel cwareli ffenestri *
- ✘ Drychau *
- ✘ Bylbiau golau *
- ✘ Llestri coginio gwydr, fel Pyrex *
- ✘ Platiau microdon *
- ✘ Fasau *
- ✘ Poteli farnais ewinedd *
- ✘ Gwydr wedi torri *

* Lapiwch yr eitemau hyn yn ddiogel mewn hen bapur newydd neu bapur cegin, neu eu bagio'n ddwbl, i sicrhau na chaiff criwiau eu hanafu wrth eu casglu, yna rhowch nhw yn eich bin du neu fagiau du, neu ewch â nhw i'ch Canolfan Ailgylchu leol, os gwelwch yn dda.

Rydym yn casglu'ch **ailgylchu** o'ch cartref **bob wythnos**.
I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i'n gwefan.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Cardbord



**Bag gwyn**




### ✔ Ie, plîs

- ✔ Bocsys cardbord, fel y rhai a ddefnyddir ar gyfer grawnfwydydd, tabledi peiriant golchi llestri, esgidiau, hancesi papur, nwyddau ymolchi, a phast dannedd
- ✔ Tiwbiau papur toiled
- ✔ Cartonau wyau
- ✔ Llewys cardbord a ddefnyddir i ddal bwydydd, yn cynnwys prydau parod a phecynnau aml-becyn
- ✔ Cardiau cyfarch heb fathodynnau, rhubanau, ffoil neu lwch llachar arnynt
- ✔ Cefnau cardbord o becynnau batris a brwshys dannedd
- ✔ Bocsys ac amlenni cardbord o ddanfoniadau siopa ar-lein
- ✔ Papur brown a llwyd

### ✘ Dim diolch

- ✘ Cardbord sydd wedi'i halogi â bwyd, olew, saim neu baent *
- ✘ Cardiau cyfarch sydd â bathodynnau, rhubanau, ffoil neu lwch llachar arnynt *
- ✘ Papur lapio *
- ✘ Polystyren *
- ✘ Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak, a ddefnyddir ar gyfer sudd ffrwythau, llaeth neu gawl **

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich bin du neu fagiau du.

** Rhowch yr eitemau hyn yn eich bocs ar gyfer metelau a phlastigion cymysg.

**Cofiwch:**

- fflatiwch eich cardbord a'i dorri'n ddarnau bach i sicrhau ei fod yn ffitio yn eich bag gwyn ar gyfer cardbord
- cadwch gardbord yn sych
- defnyddiwch y bag a ddarparwyd gan y Cyngor yn unig. Peidiwch â defnyddio unrhyw fath arall o gynhwysydd, yn cynnwys unrhyw fagiau plastig untro
- ewch ag unrhyw gardbord nad yw'n ffitio yn eich bag gwyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol

# Beth sy'n mynd i ble?

## Batris o'r cartref



**Bag bach gwyn**




### Ie, plîs

✔ Batris o'r cartref, fel rhai AAA, AA, B, C, D, DD a 9V

### Dim diolch

✘ Batris 'botwm' lithiwm-ïon, fel y rhai a ddefnyddir mewn cyfrifianellau, dyfeisiau cymorth clyw, neu watshis *
✘ Batris e-sigarennau a 'vapes' *
✘ Batris y gellir eu gwefru o liniaduron, ffonau symudol, tŵls trydan neu sugnwyr llwch *
✘ Batris ceir *
✘ Teclynnau gwefru batris *

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol, os gwelwch yn dda.

**Cofiwch:**

- defnyddiwch y bag a ddarparwyd gan y Cyngor. Os nad oes gennych chi y bag a gawsoch gan y Cyngor, cewch gasglu un o'ch Hwb Cymunedol agosaf, sydd mewn lleoliad canolog yn yr holl lyfrgelloedd lleol a reolir gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin. Neu cewch roi eich hen fatris allan i'w casglu mewn bagiau plastig untro, os oes gennych rai sydd angen eu defnyddio.

Rydym yn casglu'ch **ailgylchu** o'ch cartref **bob wythnos**.
I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i'n gwefan.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Tecstilau




**Bag plastig**

### ✔ Ie, plîs

- ✔ Dillad oedolion a phlant
- ✔ Esgidiau
- ✔ Tyweli
- ✔ Cynfasau gwely

### ✘ Dim diolch

- ✘ Duvets neu gwiltiau *
- ✘ Gobennydd *
- ✘ Sachau cysgu *
- ✘ Wadin tu mewn clustogau *
- ✘ Carpedi *

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol, os gwelwch yn dda.

## Eitemau trydanol bach




**Bag plastig**

### ✔ Ie, plîs

- ✔ Tegellau
- ✔ Sychwyr gwallt
- ✔ Tostwyr
- ✔ Tŵls trydanol
- ✔ Radios
- ✔ Heyrn smwddio
- ✔ Pinnau e-sigarennau neu 'vapes'

### ✘ Dim diolch

- ✘ Horsys eirio dillad trydan *
- ✘ Setiau teledu *
- ✘ Sugnwyr llwch *
- ✘ Microdonau *
- ✘ Oergelloedd neu rewgelloedd *

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol, os gwelwch yn dda.

**Cofiwch:**

- sicrhewch fod tecstilau'n lân a sych, a bod esgidiau mewn parau
- rhowch decstilau ac eitemau trydanol bach mewn bagiau plastig clir ar wahân, clymwch nhw'n dynn, nodwch naill ai 'tecstilau' neu 'eitemau trydanol bach' ar eich bagiau, ac yna rhowch nhw ar ben eich Troliboc



Rydym yn casglu'ch **ailgylchu** o'ch cartref **bob wythnos**.
I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i'n gwefan.

# Nwyddau hylendid amsugnol

Cysylltwch â ni i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth am ddim hwn



**Sach melyn gyda streipiau du**



## Ie, plîs

- ✔ Cewynnau, bagiau cewynnau a weips
- ✔ Padiau anymataliaeth
- ✔ Bagiau colostomi a stoma

**Cofiwch:**

- defnyddiwch y sachau melyn untro a ddarparwyd gan y Cyngor yn unig. Peidiwch â defnyddio unrhyw fath arall o gynhwysydd

## Dim diolch

- ✘ Gwastraff clinigol, fel gorchuddion untro, masgiau wyneb, ffedogau neu fenig *
- ✘ Offer meddygol, fel nodwyddau, nwyddau miniog, neu chwistrelli **
- ✘ Bagiau cathetr neu diwbiau plastig *
- ✘ Poteli wrin *
- ✘ Padelli gwely untro neu fagiau leinio *
- ✘ Padiau gwely neu gadair *
- ✘ Gwastraff hylendid, fel tamponau neu dyweli *
- ✘ Baw anifeiliaid *
- ✘ Padiau hyfforddi cŵn bach *

* Bagio'r eitemau hyn yn ddwbl and yna rhowch nhw yn eich bin du neu fagiau du.

** Cysylltwch â'ch bwrdd iechyd lleol ar 0300 123 9208 i drefnu casgliad ar gyfer yr eitemau hyn.

Rydym yn casglu'ch **ailgylchu** o'ch cartref **bob wythnos**.
I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i'n gwefan.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Gwastraff gardd



**Bag gwyrdd**







### ✔ Ie, plîs

- ✔ Gwair, dail a'r rhan fwyaf o chwyn
- ✔ Planhigion a blodau
- ✔ Toriadau llwyni a thorion gwrychoedd

**Cofiwch:**

- rydym yn casglu gwastraff o'r ardd rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd
- defnyddiwch y bag gwyrdd a ddarparwyd gan y Cyngor yn unig. Cewch roi hyd at bedwar bag gwyrdd allan bob pythefnos. Peidiwch â defnyddio unrhyw fath arall o gynhwysydd, yn cynnwys unrhyw fagiau plastig untro neu bagiau swp tunnell

### ✘ Dim diolch

- ✘ Pridd, cerrig neu foncyffion *
- ✘ Chwyn ymledol, fel Canclwm Japan neu Llysiau'r Gingroen **
- ✘ Baw anifeiliaid ***
- ✘ Sarn anifeiliaid anwes fel gwair, gwellt neu siafins pren ***
- ✘ Unrhyw ddodrefn o'r ardd, boed yn blastig neu'n bren *

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol, os gwelwch yn dda.

** Cysylltwch â ni i drefnu i gontractwr arbenigol ddod i gasglu hwn a chael gwared arno'n ddiogel.

*** Rhowch yr eitemau hyn yn eich bin du neu fagiau du.

Rydym yn casglu'ch **gwastraff gardd** o'ch cartref **bob pythefnos**.
I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i'n gwefan.

# Beth sy’n mynd i ble?

## Gwastraff na ellir ei ailgylchu




**Bin du neu fagiau du**




### ✔ Ie, plîs

- ✔ Poteli, potiau a thybiau plastig du neu frown
- ✔ Polystyren
- ✔ Holl wastraff o’r cartref sy’n weddill na ellir ei ailgylchu *

* Os bydd angen ichi gael gwared ar eitemau fel bagiau a deunydd lapio plastig, gweler tudalen 15 i ddarganfod sut gallwch ailgylchu’r rhain mewn mannau ailgylchu oddi cartref, fel archfarchnadoedd.

### ✘ Dim diolch

- ✘ Unrhyw eitemau y gellir eu hailgylchu o gartref gan ddefnyddio’r cynwysyddion a roddwyd ichi gan y Cyngor, neu eitemau y gellir eu hailgylchu yn eich Canolfan Ailgylchu leol

**Cofiwch:**

- defnyddiwch y bin du a ddarparwyd gan y Cyngor yn unig. Os nad oes gennych fin du, cewch roi hyd at bedwar bag du allan bob tair wythnos. Peidiwch â defnyddio unrhyw fath arall o gynhwysydd
- os byddwch yn prynu bagiau du, gwnewch yn siŵr nad ydynt yn rhai â chapasiti o fwy na 60 litr
- peidiwch â rhoi gwastraff ychwanegol allan wrth ymyl eich bin du neu’ch pedwar bag du. Yr enw ar hyn yw ‘gwastraff ochr’. Nid ydym yn casglu ‘gwastraff ochr’ ac mae’n bosibl bydd yn rhaid i chi dalu dirwy

Rydym yn casglu’ch **gwastraff na ellir ailgylchu** o’ch cartref **bob tair wythnos**.
I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i’n gwefan.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Beth ddylwn ei wneud â bagiau a deunyddiau lapio plastig?

Os bydd angen ichi gael gwared ar unrhyw **fagiau neu ddeunydd lapio plastig**, caiff yr eitemau hyn eu derbyn mewn mannau ailgylchu oddi cartref mewn lleoliadau fel archfarchnadoedd.

Ewch i **cymruynailgylchu.org.uk** i ddod o hyd i'ch cyfleuster agosaf.

Mae'n bosibl y bydd y mathau o eitemau a dderbynnir yn amrywio rhwng lleoliadau, felly dilynwch y canllawiau a roddir gan y sefydliad sy'n rheoli'r man ailgylchu penodol.

Os na allwch fynd â'r eitemau hyn i un o'r cyfleusterau hyn a bod angen ichi gael gwared arnynt gartref, yna rhowch nhw yn eich **bin du neu fagiau du ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu**.




**Bagiau plastig a Bagiau am Oes**




**Bagiau ffrwythau, salad a llysiau wedi'u pacio'n barod**



**Bagiau plastig tenau ar gyfer eitemau ffrwythau, salad a llysiau rhydd**



**Haenau plastig fel haenen lynu, caeadau prydau parod neu gaeadau potiau iogwrt**



**Bagiau rhewgell**




**Bagiau bwyd rhewgell**




**Bagiau pasta a reis**




**Bagiau bara**



**Bagiau lapio cylchgronau a phapurau newydd**




**Deunydd lapio pecynnau aml-becyn a'r dolenni plastig oddi ar becynnau aml-becyn o boteli a chaniau**



**Bagiau leinio bocsys grawnfwyd**




**Deunydd lapio o becynnau papur toiled a phapur cegin**



**Bagiau sych lanhawyr a bagiau sy'n gorchuddio dillad newydd**




**Bagiau parseli a swigod lapio**



**Tâp pacio a thâp gludiog**




**Pecynnau creision a bisgedi**




**Pecynnau neu 'godenni' ffoil wedi'i lamineiddio, fel y rhai sy'n dal coffi, sudd, reis, bwyd babanod neu fwyd anifeiliaid anwes**

**Peidiwch â rhoi bagiau a deunydd lapio plastig yn eich bocs ar gyfer poteli, potiau a thybiau plastig.**

## Pa wasanaethau neu gefnogaeth arall ydych chi'n ei gynnig?

### Casgliadau gwastraff swmpus



Os oes gennych eitemau a nwyddau mawr o'r cartref nad oes eu hangen arnoch mwyach ac na allwch ymweld ag un o'n Canolfannau Ailgylchu, gallwn drefnu casgliad gwastraff swmpus o'r cartref ichi am ffi fach. Gallwn gasglu eitemau fel oergelloedd, rhewgelloedd, setiau teledu, matresi, a chadeiriau.

I drefnu casgliad gwastraff swmpus, ewch i'n gwefan.

### Ymweliadau cartref gan Warden Gwastraff



Mae gennym dîm o Wardeniaid Gwastraff a all roi cyngor ac arweiniad ichi am ein holl wasanaethau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu, a'ch cefnogi i ailgylchu'r gorau gallwch chi a lleihau eich gwastraff na ellir ei ailgylchu gan eich helpu chi i sortio eich gwastraff yn gywir.

### Canolfannau Ailgylchu



Cewch ailgylchu llawer o wahanol ddeunyddiau yn eich Canolfan Ailgylchu leol na allwn eu casglu o'ch cartref, fel gwelyau a matresi, eitemau trydanol mawr, plastrfwrdd, CDs, carpedi, olew, poteli nwy a rwbel.

Sylwer: Os ewch ag unrhyw fagiau du wedi'u llenwi i'ch Canolfan Ailgylchu leol, byddwn yn gofyn ichi eu hagor i sicrhau mai dim ond gwastraff na ellir ei ailgylchu sydd ynddynt.

Gallwch ddarganfod mwy am eich Canolfan Ailgylchu leol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth y mae ei angen arnoch cyn ymweld, ar ein gwefan.

### Trwsio eich eitemau wedi torri

Os oes gennych eitem wedi torri, gallech ddod o hyd i fusnes atgyweirio lleol drwy ein cyfeiriadur trwsio ar-lein, yma **www.repairefficiencywales.co.uk**. Mae'r wefan hon hefyd yn caniatáu ichi chwilio am ddigwyddiadau yn eich ardal ble gallech gael trwsio eich eitem wedi torri am ddim gan wirfoddolwyr.

O drwsio eich eitemau yn hytrach na phrynu rhai newydd, rydych yn lleihau eich allyriadau carbon ac yn helpu i atal newid hinsawdd, yn ogystal ag arbed arian.

### Ailddefnyddio eich eitemau dieisiau

Os oes angen ichi gael gwared ar eitemau nad oes mo'u hangen arnoch mwyach, ond sydd mewn cyflwr da, gallwch fynd â'r rhain i'ch Canolfan Ailgylchu leol i gael eu hailddefnyddio.

Bydd ein tîm o gynorthwywyr a gwirfoddolwyr yn sicrhau bod yr eitemau rydych yn eu cyfrannu'n ddiogel ac mewn cyflwr da, cyn eu glanhau a'u rhoi ar werth yn Siop Ailddefnyddio The Den, sydd wedi'i lleoli yn y Ganolfan Ailgylchu ym Mharc Busnes Roseheyworth. Cewch fwy o wybodaeth ar ein gwefan.

### Casgliadau â chymorth



Os ydych chi'n methu rhoi eich ailgylchu a'ch gwastraff na ellir ei ailgylchu allan i ni ei gasglu oherwydd bod eich symudedd wedi'i gyfyngu arno, dros dro neu'n barhaol, ac nad oes neb arall i'ch helpu, cewch wneud cais am 'gasgliad â chymorth' a byddwn yn asesu eich sefyllfa.

'Casgliad â chymorth' yw pan fo'n criwiau'n casglu eich ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu o fan casglu a gytunwyd arno.

# Cwestiynau cyffredin

## Beth sy'n digwydd i fy ailgylchu unwaith y byddwch wedi'i gasglu?

I ddarganfod beth sy'n digwydd i'ch ailgylchu unwaith y byddwn wedi'i gasglu, ewch i **www.fyailgylchucymru.org.uk**

I ddarganfod beth mae'ch ailgylchu'n cael ei ddefnyddio i'w wneud, ewch i **www.cymruynailgylchu.org.uk**.

## Beth fydd yn digwydd os na fydda i'n ailgylchu fy ngwastraff?

Mae'r rhan fwyaf o bobl ym Mlaenau Gwent yn sortio eu gwastraff ac yn ailgylchu popeth posibl – diolch i'r rhai ohonoch sy'n chwarae eich rhan. Ond, yn anffodus, mae rhai pobl nad ydynt yn gwneud cymaint ag y gallent, ac mae'n bosibl y bydd rhaid iddynt dalu cosb benodedig o £100 neu ymddangos yn y llys.

## Pam nad ydych wedi casglu cynnwys fy nghynhwysydd ailgylchu?

Os yw eich cynhwysydd yn cynnwys eitemau na ddylent fod ynddo, bydd ein criwiau'n rhoi sticer neu thag arno, yn gofyn ichi sortio ei gynnwys erbyn eich casgliad nesaf. Neu cewch ddewis mynd ag ef i'ch Canolfan Ailgylchu leol.

## Pam nad ydych wedi gwagio cynnwys fy min du, neu gasglu fy magiau du?

Os gwnaethoch chi roi gwastraff ychwanegol allan wrth ymyl eich bin du neu eich pedwar bag du, ni fyddwn yn ei gasglu. Yr enw ar hyn yw 'gwastraff ochr'. Nid ydym yn casglu 'gwastraff ochr' ac efallai bydd yn rhaid i chi dalu dirwy.

Os yw eich bin du neu eich bagiau du yn rhy llawn neu'n rhy drwm, bydd ein criwiau'n rhoi tag neu sticer ar eich cynhwysydd yn gofyn ichi sortio ei gynnwys cyn eich casgliad nesaf. Neu gallech ddewis mynd ag ef i'ch Canolfan Ailgylchu leol.

## Pam ydych chi wedi casglu rhywfaint o fy ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu, ond nid y cyfan?

Er ein bod yn casglu eich ailgylchu a'ch gwastraff na ellir ei ailgylchu ar yr un diwrnod, rydym yn eu casglu mewn cerbydau ar wahân, ar adegau gwahanol rhwng 7yb a 3yh.

Peidiwch â chysylltu i'n hysbysu o unrhyw gasgliadau a fethwyd tan ar ôl 3yh, ac ewch i edrych ar ein gwefan neu'n cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol am wybodaeth am unrhyw beth sy'n amharu ar ein gwasanaethau casglu.

A chofiwch, er ein bod yn casglu eich ailgylchu bob wythnos, rydym yn casglu eich gwastraff gardd bob pythefnos a'ch gwastraff na ellir ei ailgylchu bob tair wythnos. I weld dyddiau eich casgliadau, ewch i'n gwefan.

## Beth sy'n digwydd os oes gennyf fwy o ailgylchu neu wastraff na ellir ei ailgylchu nag y gallaf ei ffitio yn fy nghynwysyddion?

Os oes gennych fwy o ailgylchu neu wastraff na ellir ei ailgylchu nag y gallwch ei ffitio yn eich cynwysyddion, gallwch naill ai ddal eich gafael arnynt tan eich casgliad nesaf, neu fynd â nhw i'ch Canolfan Ailgylchu leol.

Os hoffech gael cynwysyddion ailgylchu ychwanegol, cewch eu harchebu ar ein gwefan.

## Beth os nad oes gennyf fagiau leinio cadi gwastraff bwyd?

Os nad oes gennych fagiau leinio cadi gan y Cyngor, cewch ailddefnyddio unrhyw fagiau plastig untro sydd gennych, yn cynnwys bagiau plastig o'r archfarchnad (ond nid Bagiau am Oes), bagiau bara, bagiau brechdan, bagiau grawnfwyd, bagiau bwyd rhewgell, bagiau tatws/llysiau neu ffrwythau.

# Eich nodiadau a nodiadau atgoffa

Mae croeso i chi ddefnyddio'r dudalen hon i ysgrifennu eich nodiadau neu nodiadau atgoffa eich hun ar gyfer eich gwasanaethau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu.

**Mae eich ailgylchu yn gwneud gwahaniaeth MAWR ym Mlaenau Gwent.**

Diolch yn fawr i chi am barhau i wneud y peth iawn ac am chwarae eich rhan dros yr amgylchedd, drwy ddidoli eich gwastraff ac ailgylchu popeth y gallwch.

www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/gwastraff-ac-ailgylchu
cymraeg@blaenau-gwent.gov.uk
01495 311556
blaenaugwentcbc
BlaenauGwentCBC
BlaenauGwentCBC

Argraffwyd ar bapur 100% eilgylch